

Hysbysiad Preifatrwydd Data

Diben yr hysbysiad hwn yw rhoi sicrwydd bod Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr dwyflynyddol y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr Undeb Ewropeaidd.

Pwy ydym ni?

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN; <http://www.shrn.org.uk/cy/>) yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymchwil Canser y DU. Fe'i harweinir gan yr Athro Simon Murphy yn y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd.

Bob dwy flynedd, gwahoddir ysgolion uwchradd yng Nghymru sy'n aelodau o SHRN i gymryd rhan mewn Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr. Mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn cael eu bwydo'n ôl i ysgolion trwy Adroddiadau Iechyd a Llesiant Myfyrwyr unigol i'w helpu i seilio eu gwaith ar wella iechyd a llesiant myfyrwyr ar ddata cadarn.

Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn cael eu bwydo'n ôl i Awdurdodau Lleol mewn adroddiadau unigol ac mae adroddiad cenedlaethol ar y canfyddiadau'n cael ei gyhoeddi sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, defnyddir data'r arolwg ar gyfer ymchwil ynglŷn ag iechyd a llesiant pobl ifanc mewn ysgolion.

Ariennir yr arolwg gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (www.ymchwiliachydgofal.llyw.cymru).

Pa wybodaeth bersonol rydym ni'n ei chasglu?

Mae'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yn holi pobl ifanc ynglŷn ag amrywiaeth eang o ymddygiadau iechyd, sut maen nhw'n teimlo am yr ysgol a gwybodaeth ddemograffig.

Yn ogystal, rydym ni'n casglu'r wybodaeth adnabyddadwy ganlynol gan fyfyrwyr sy'n rhoi caniatâd i'w data arolwg gael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil hydredol a/neu gysylltu data:

- Enw cyntaf a chyfenw
- Dyddiad geni
- Cod post

Cesglir y wybodaeth sensitif ganlynol gan bob myfyriwr:

- Tarddiad ethnig
- Data sy'n ymwneud â gweithgarwch rhywiol (pobl ifanc ym mlwyddyn 9 ac uwch yn unig)
- Data sy'n ymwneud ag iechyd

Pam rydym ni'n casglu gwybodaeth bersonol?

Mae gwybodaeth bersonol, gan gynnwys gwybodaeth sensitif, yn cael ei defnyddio i ymchwilio i iechyd a llesiant pobl ifanc a darparu data iechyd a llesiant, a gasglwyd ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu genedlaethol, i ysgolion sy'n aelodau o SHRN a phartneriaid.

Yn ogystal, mae angen gwybodaeth adnabyddadwy i helpu i:

- Sicrhau y gallwn gymharu ymatebion yr un person ifanc i'r arolwg yn ystod rowndiau dilynol o'r arolwg (ymchwil hydredol).
- Sicrhau y gallwn gynnal ymchwil cysylltu data, lle mae ymatebion person ifanc i'r arolwg yn cael eu cysylltu â data a ddelir amdano mewn cronfeydd data eraill, e.e. cronfeydd data'r GIG ac addysg. Mae ymchwil cysylltu data'n defnyddio technegau anonymeiddio a diogelu data helaeth a thrwyadl i sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn aros yn ddiennw.

Sut rydym ni'n casglu gwybodaeth bersonol?

- Rheolir yr arolwg gan Ipsos MORI (y prosesydd data) ar ran Prifysgol Caerdydd (y rheolwr data).
- Mae ysgolion yn trefnu i'r arolwg gael ei gynnal, gan ddilyn arweiniad a ddarperir gan SHRN.
- Mae myfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 i 11 yn cwblhau'r arolwg yn yr ysgol dan oruchwyliaeth staff ysgol. Caiff myfyrwyr ym mlynnyddoedd 12 a 13 gymryd rhan hefyd os yw'r ysgol yn dymuno.
- Mae'r arolwg yn cael ei gynnal ar-lein a'i gwblhau ar gyfrifiaduron neu ddyfeisiau llechen.
- Mae'r cwestiynau sy'n casglu gwybodaeth adnabyddadwy (enw, dyddiad geni a chod post) ar ddiwedd yr arolwg a gall myfyrwyr ddewis peidio â'u hateb os ydynt yn dymuno.

Sut rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir?

O dan y ddeddf diogelu data, mae'n rhaid i ni nodi'r sail gyfreithiol rydym ni'n dibynnu arni i brosesu eich data personol. Wrth ddarparu eich data personol ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, byddwn yn ei brosesu ar y sail bod gwneud hynny'n angenrheidiol ar gyfer ein tasg gyhoeddus at ddibenion ymchwil wyddonol a hanesyddol yn unol â'r mesurau diogelu angenrheidiol, a'i fod er budd y cyhoedd. Mae'r Brifysgol yn sefydliad ymchwil gyhoeddus a ffurfiwyd gan siarter frenhinol i hybu gwybodaeth ac addysg trwy ei gweithgareddau addysgu ac ymchwil. Mae ein siarter ar gael ar wefan Prifysgol Caerdydd.

Sut rydym ni'n storio'r wybodaeth bersonol a gesglir?

Caiff data ei gasglu gan Ipsos MORI ac yna'i drosglwyddo'n ddiogel i Brifysgol Caerdydd.

Mae gwybodaeth bersonol yn cael ei storio mewn ffolder mynediad cyfyngedig ar weinydd diogel yn y brifysgol, a ddiogelir rhag mynediad heb ei awdurdodi trwy fesurau dilysu defnyddiwr a wal dân. Mae gwybodaeth adnabyddadwy'n cael ei storio mewn ffeil a ddiogelir gan gyfrinair o fewn y ffolder.

Nid oes unrhyw gopiâu papur o'r wybodaeth bersonol, gan gynnwys y wybodaeth adnabyddadwy.

At bwy rydym ni'n anfon gwybodaeth bersonol?

Bydd Prifysgol Caerdydd yn rhannu data'r arolwg gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymchwilwyr academiaidd eraill at ddibenion y gwaith ymchwil hwn. Ni fydd data a rennir â'r

trydydd partiön hyn yn cynnwys y data adnabyddadwy, h.y. bydd yn ddiennw. Bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio'r data i oruchwylio iechyd cyhoeddus, monitro a gwerthuso polisiâu, a chynllunio rhaglenni iechyd. Caiff ymchwilwyr academiaidd eraill ofyn i Brifysgol Caerdydd am ganiatâd i ddefnyddio'r data (ac eithrio'r data adnabyddadwy) ar gyfer ymchwil iechyd a llesiant.

Anfonir data adnabyddadwy at drydydd parti dibynadwy yn unig, trwy system trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel, yn rhan o'r broses ymchwil cysylltu data. Mae'r trydydd parti dibynadwy yn gweld y wybodaeth adnabyddadwy yn unig (enw, dyddiad geni a chod post), ac nid gweddill y data o'r holiaduron. Mae'n defnyddio'r wybodaeth bersonol i greu cod diennw ar gyfer pob cyfranogwr a ddefnyddir wedi hynny i gysylltu ei atebion i'r arolwg yn ddiennw â data o ffynonellau eraill, e.e. cofnodion iechyd neu addysg.

Ni fydd data adnabyddadwy personol yn cael ei rannu'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Am ba mor hir rydym ni'n storio gwybodaeth bersonol?

Ar ôl saith mlynedd, bydd eich data personol yn cael ei wneud yn ddiennw, sy'n golygu y byddwn yn dileu unrhyw ddynodyddion all eich adnabod o'r data a roddwyd gennych. Gallai'r data personol diennw hwn gael ei gadw am gyfnod amhenodol neu ei gyhoeddi i gefnogi'r ymchwil. Bydd data personol arall y gallem fod wedi'i gasglu, fel eich caniatâd i gymryd rhan yn yr astudiaeth, yn cael ei gadw am 15 mlynedd, yn unol ag Amserlenni Cadw Cofnodion y Brifysgol.

Hawl i gwyno

Prifysgol Caerdydd yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwmo i barchu a diogelu eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau a deddfwriaeth Diogelu Data. Mae gan y Brifysgol Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef trwy inforequest@caerdydd.ac.uk Mae rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, gan gynnwys eich hawliau a manylion ynghylch sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych eisiau cwyno, ar gael ar y dudalen we ganlynol: <https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection>

Hawliau unigol

Mae gennych nifer o hawliau o dan y ddeddf diogelu data a gallwch gael gwybod mwy amdanynt ar ein gwefan.

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection>

Sylwer bod eich hawliau i gyrchu, newid neu symud eich data personol yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eich gwybodaeth bersonol mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir. Os byddwch yn tynnu'n ôl o'r astudiaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch a gasglwyd gennym eisoes. I ddiogelu'ch hawliau, byddwn yn defnyddio cyn lleied o wybodaeth bersonol adnabyddadwy â phosibl.

Dyddiad y ddogfen: Medi 2019